# Cymunedau Creadigol AHRC

## **Pecyn Cymorth - Modiwl 4:** Cyd-greu Polisi Diwylliant

Nod y modiwl Cymunedau Creadigol hwn yw gwella dealltwriaeth o gyd-lunio wrth lunio polisïau a rhannu syniadau ar sut i hysbysu llunwyr polisïau drwy ddefnyddio eich ymchwil a datblygu fel sylfaen dystiolaeth.

Mae **Modiwl 4** yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yn:

**Modiwl 1:** Ymchwil a Datblygu Cymunedol: Sut i gymryd rhan mewn ymchwil a datblygu diwylliannol fel cymuned greadigol

**Modiwl 2:** Cyfleu Arloesedd: Sut i rannu a phroffilio eich ymchwil fel cymuned greadigol

**Modiwl 3:** Arferion gorau o ran cynnal trefniadau cydweithio traws-sector

Creative Communities

Arts and Humanities Research Council

Northumbria University NEWCASTLE

## Beth yw polisi?

- Cyfres o syniadau, cynlluniau neu strategaethau sy'n cael ei datblygu gan lywodraeth, busnes neu sefydliad i wneud penderfyniadau a chyflawni nod neu amcan penodol
- Mae'n sicrhau bod canlyniadau'n cyd-fynd ag amcanion

## Pwy sy'n llunio polisi?

- Llywodraethau cenedlaethol a datganoledig, awdurdodau â meiri yn Lloegr, ac awdurdodau lleol
- Ystod eang o bobl gan gynnwys gwleidyddion,gweision sifil a staff mewn cyrff hyd braich
- Gall melinau trafod, prifysgolion, cyrff anllywodraethol, elusennau a busnesau hefyd ddylanwadu ar bolisi

## Pam mae polisi yn bwysig?

- Mae'n ymateb i heriau ac anghenion y cyhoedd ac mae ganddo'r gallu i lywio cymdeithas
- Gall ddylanwadu ar bopeth o dwf economaidd i ofal iechyd, addysg, seilwaith, yr amgylchedd, diogelwch y cyhoedd ac ymdeimlad o berthyn
- Mae'n helpu llywodraethau i gyflawni eu nodau ac mae'n cyfrannu at ansawdd bywyd gwell i bawb
- Gall ymgysylltu â llunwyr polisïau fod yn llwybr effeithiol i greu effaith

## Beth yw polisi diwylliant?

- Y camau a'r strategaethau sy'n ceisio cryfhau, tyfu, hyrwyddo a rheoleiddio gweithgareddau yn sectorau'r celfyddydau, diwylliant, treftadaeth a'r diwydiannau creadigol
- Mae hyn yn cynnwys cydnabod eu pwysigrwydd o ran: cyfrannu at yr economi, sbarduno twf, creu cyfleoedd i bobl ifanc, cyfoethogi cymunedau a rhoi hwb i enw da yn lleol ac yn genedlaethol

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE


# Sut gallwn ni gyd-lunio polisi diwylliant?



- Ymgysylltu â chyfranogwyr traws-sector, gan gynnwys pobl ifanc, mewn proses ar y cyd i sicrhau bod lleisiau amrywiol yn cael eu cynrychioli
- Dod â phobl ynghyd gan ddefnyddio digwyddiadau wyneb yn wyneb ac offer ar-lein, fel cyfarfodydd ar-lein neu Fforwm Polisi ar-lein i wneud y broses gyd-lunio mor hygyrch â phosibl
- Arwain y rhai sy'n cymryd rhan i ystyried cyfleoedd, heriau ac anghenion fel sail ar gyfer cyd-lunio awgrymiadau ar gyfer atebion polisi
- Profi syniadau gyda rhanddeiliaid traws-sector i sicrhau bod y polisi'n adlewyrchu anghenion pawb dan sylw
- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â phartneriaid i sicrhau proses cyd-greu barhaus ac ystyrlon
- Defnyddio dulliau cyfranogol i gasglu gwybodaeth - gallai'rrhain gynnwys adnoddau ymgysylltu digidol fel Slido neu daflenni gweithgareddau i arwain trafodaethau a sicrhau bod pawb yn gallu

## Cymunedau Creadigol AHRC:

Defnyddiodd y Labordai Polisi Cymunedau Creadigol gyfuniad o adnoddau digidol ac argraffu wedi'u hystyried yn ofalus i hwyluso trafodaethau creadigol – gan gynnwys y daflen gweithgareddau grŵp hon a ysbrydolodd sgwrs ddiddorol ac a arweiniodd at awgrymiadau ar gyfer atebion polisi newydd:



AHRC Creative Communities

The Idea

Strategy What needs to happen?

Actors Who can make this happen?

Change What would success look like?

Timescale
- Short
- Medium
- Long

Scope and Scale
- Small
- Medium
- Large

Arts and Humanities Research Council | Northumbria University NEWCASTLE | Creative Communities

Creative Communities | Arts and Humanities Research Council | Northumbria University NEWCASTLE

| Cyfleoedd Cyd-lunio | Heriau Cyd-lunio |
|---|---|
| Dod ag arbenigedd amrywiol a phrofiad bywyd at ei gilydd | Amser a gallu i gyd-lunio polisi yn ddilys |
| Galluogi pawb sy'n cymryd rhan i ymgysylltu'n gyfartal | Trosi iaith llunio polisi ar gyfer gwahanol sectorau |
| Cysylltu gwahanol faterion a thynnu sylw at anghenion cyffredin ar draws sectorau | Dal i ymgysylltu'n barhaus â chyfranogwyr |
| Sefydlu cysylltiadau traws-sector | Mae angen adnoddau i barhau â'r gwaith a chymryd y camau nesaf |
| Cefnogi gwaith datblygu polisi ystyrlon | Ymgysylltu â llunwyr polisïau ar draws cyd-destunau gwleidyddol sy'n newid |

## Gyda phwy y gallwn ni gyd-lunio polisi diwylliant?

### Llywodraeth y DU

Cysylltwch ag Aelodau Seneddol sy'n gweithio yn y maes sydd o ddiddordeb i chi neu sydd wedi siarad am hyn.

Cyfrannwch at alwadau am dystiolaeth, ymchwiliadau ac ymgynghoriadau

Ymgysylltwch â Grŵp Seneddol Hollbleidiol sy'n berthnasol i'ch maes gwaith

### Cyrff Hyd Braich

Yn cynnwys Arts Council England, Creative Scotland, Arts Council of Northern Ireland, Cyngor Celfyddydau Cymru

### Llywodraethau Datganoledig

Aelodau o Senedd yr Alban, Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol neu Aelodau o'r Senedd sy'n gweithio yn y maes sydd o ddiddordeb i chi neu sydd wedi siarad am hyn

Cyfrannwch at alwadau am dystiolaeth, ymchwiliadau ac ymgynghoriadau ar gyfer Senedd yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon neu Y Senedd

### Trydydd Sector

Yn cynnwys elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau, a sefydliadau cymunedol

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE

## Arferion gorau wrth lunio polisi



- Cymdeithasu argymhellion polisi wedi'i gyd-lunio gyda llunwyr polisïau a phartneriaid traws-sector yn eich cyd-destun datganoledig wrth iddynt gael eu datblygu
- Bod yn agored i adborth i sicrhau bod eich argymhellion polisi yn drylwyr
- Cadw'r cyd-destun datganoledig mewn cof wrth greu a rhannu argymhellion polisi: bydd hyn yn dylanwadu ar eu ffurf, sut maent yn cael eu derbyn, a sut maent yn gweithio'n ymarferol
- Ystyried sut rydych yn rhannu'r hyn rydych wedi'i ddysgu â chyfranogwyr ar draws sectorau a chyda llunwyr polisïau lleol a chenedlaethol – efallai y bydd gwahanol gynulleidfaoedd yn defnyddio iaith yn wahanol ac yn ymateb i fformatau gwahanol
- Ystyried cyfleoedd i gyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn barhaus er mwyn rhannu eich argymhellion polisi. Gweler Pecyn Cymorth Cymunedau Creadigol - Modiwl 2
- Ystyried y camau nesaf a sut gallwch adeiladu ar eich argymhellion polisi, sefydlu mwy o gysylltiadau a sicrhau eu bod yn goroesi – gall perthnasoedd parhaus â phartneriaid arwain at syniadau a chyfleoedd newydd, cyllid newydd a chyfleoedd i gydweithio yn eich cyd-destun datganoledig

## Enghreifftiau o Argymhellion ar gyfer Polisi wedi'i Gyd-lunio:

- Mae **Cymunedau Creadigol AHRC** yn datblygu sylfaen dystiolaeth newydd ar sut a pham y gall diwylliant fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol, cefnogi **datganoli**, galluogi ymdeimlad o berthyn a chwalu rhwystrau i gyfleoedd gyda chymunedau mewn lleoliadau datganoledig ar draws pedair gwlad y DU
- Cynhaliodd y rhaglen gyfres o **Labordai Polisi'r DU** 2024 a **Sbrintiau Polisi** yn 2024-25 i gyd-greu awgrymiadau ar gyfer atebion polisi gyda chymunedau creadigol traws-sector a bu'r Cymunedau Creadigol yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisïau mewn cyd-destunau datganoledig drwy gydol y broses o'u creu a'u lansio i sicrhau eu perthnasedd, dilysrwydd a chyrhaeddiad
- Darllenwch **Bapurau Cythrudd Polisi Datganoli Cymunedau Creadigol AHRC**

### Yn barod am ragor o wybodaeth?

Mae 4 Modiwl ym Mhecyn Cymorth Cymunedau Creadigol AHRC – mae pob un o'r rhain ar ein gwefan: **www.creativecommunities.uk**

Creative Communities
UKRI Arts and Humanities Research Council
Northumbria University NEWCASTLE